# Y CABINET  DYDD MAWRTH, 08 EBRILL 2025

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Nia Jeffreys, Menna Trenholme, Craig ab Iago, R. Medwyn Hughes, Dewi Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Dilwyn Morgan, Llio Elenid Owen a Paul Rowlinson.

**Hefyd yn bresennol-**
Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Geraint Owen (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Dylan Owen, (Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol), Iwan Evans  (Swyddog Monitro), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid) a Rhodri Jones (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

| | |
|---|---|
| Eitem 6: | Gwern ap Rhisiart (Pennaeth Addysg) a Ffion Edwards Ellis (Pennaeth Cynorthwyol Anghenion Addysg Arbennig a Chynhwysiad). |
| Eitem 7: | Sioned Eirian Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned) a Dylan Rhys Griffiths (Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin Gogledd Cymru). |
| Eitem 8 a 9: | Aled Gibbard (Pennaeth Cynorthwyol Adnoddau, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd). |
| Eitem 10: | Sioned Eirian Williams (Pennaeth Adran Economi a Chymuned) |
| Eitem 11: | Carys Fon Williams (Pennaeth Adran Tai ac Eiddo) |
| Eitem 13: | Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol yr Adran Amgylchedd) a Heledd Fflur Jones (Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio) |

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd yr Aelodau Cabinet a'r Swyddogion i'r cyfarfod gan yr Arweinydd.

Tynnwyd sylw bod mis Ebrill yn Fis Deall Awtistiaeth y Byd. Mynegwyd balchder bod gwaith gwych yn cael ei wneud yn y maes hwn o fewn y Cyngor, fel amlygwyd mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gofal yn ddiweddar.

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriad.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Eitem 8: Derbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan Y Cynghorydd Nia Jeffreys (Arweinydd y Cyngor) oherwydd ei bod wedi gwneud cais i fod yn riant maeth gyda Maethu Cymru Gwynedd. Nodwyd ei fod yn fuddiant sy'n rhagfarnu ac fe adawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw fater brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw fater yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 11 Mawrth 2025 fel rhai cywir.

## 6. DARPARIAETH CYNHWYSIAD GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dewi Jones

**PENDERFYNIAD**

1. **Mabwysiadu yr Opsiwn o greu Uned Gyfeirio Disgyblion Cofrestredig Portffolio (Aml Safle).**
2. **Derbyn y cynllun ariannu a gyflwynwyd yn yr adroddiad gan ddirprwyo'r amserlen gweithredu a gwireddu y cynllun i'r Pennaeth Addysg mewn ymgynghoriad â'r Aelod Cabinet Addysg.**

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod sicrhau'r gefnogaeth a'r ddarpariaeth gorau ar gyfer plant sydd â phroblemau ymddygiadol yn un o flaenoriaethau'r Adran Addysg.

Eglurwyd bod yr Adroddiad yn manylu ar drefniadau darpariaeth cynhwysiad presennol yng Ngwynedd. Nodwyd bod strategaeth gynhwysiad uchelgeisiol wedi cael ei gyflwyno ar gyfer ailstrwythuro'r ddarpariaeth yn 2012 ond ei bod bellach yn amserol i ddiwygio'r ddarpariaeth unwaith eto er mwyn sicrhau ei fod yn addas ar gyfer ymateb i anghenion disgyblion yn effeithiol yn y byd sydd ohoni.

Atgoffwyd bod y gwasanaeth Cynhwysiad wedi cael ei sefydlu er mwyn cyfarch argymhelliad arfarniad allanol yn 2017. Cadarnhawyd bod y gwasanaeth wedi esblygu yn gyson er mwyn sicrhau ei fod yn cyfarch anghenion perthnasol a datblygu arfer dda.

Cyflwynwyd y bwriad o sefydlu Uned Gyfeirio Disgyblion Portffolio (aml safle) ar gyfer darparu cefnogaeth i blant sydd â phroblemau ymddygiad ac ymgysylltu sylweddol. Adroddwyd y dymunir i'r Uned fod yn addas ar gyfer cefnogi plant o bob oed gydag ystod amrywiol o anghenion, gan y byddai'n addas ar gyfer unrhyw ddisgybl sydd yn canfod y profiad o fod mewn ysgol prif lif yn heriol ac anaddas i'w anghenion. Ymhelaethwyd bod cynllun i'r Uned wedi cael ei ddatblygu er mwyn amlygu strwythur llywodraethiant gadarn, amcanion a rolau penodol sydd angen eu cyflawni.

Tynnwyd sylw bod yr angen am yr Uned hon wedi cael ei amlygu o fewn gwaith bwrdd prosiect penaethiaid Gwynedd a oedd yn ymchwilio i ddarpariaethau mewn Awdurdodau Lleol eraill, yn dilyn derbyn adroddiad gan Estyn yn ddiweddar. Cadarnhawyd bod datblygu'r Uned hwn wedi cael ei wneud mewn cydweithrediad â phenaethiaid Gwynedd, gan sicrhau bod galw am y ddarpariaeth benodol hon.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Mewn ymateb i bryderon bod niferoedd disgyblion sydd yn cael eu gwahardd o ysgolion yng Ngwynedd ar gynnydd, cadarnhawyd bod gwaith yn cael ei wneud ar draws yr adran er mwyn ceisio sicrhau nad yw disgyblion yn cael ei gwahardd. Eglurwyd bod cynlluniau i ariannu cyllidebau i ysgolion sydd ar gyfer darparu

cefnogaeth i ddysgwyr cyn i'r angen i fynychu'r Uned Gyfeirio yn cael ei ystyried. Pwysleisiwyd bod darparu'r gefnogaeth hon i'r ysgolion ran allweddol i lwyddiant y cynllun hwn.

- Eglurwyd byddai'r cyfnod o amser bydd plant yn ei dreulio o fewn yr Uned Gyfeirio yn amrywio, yn ddibynnol ar eu hanghenion ac oedran, gan gadarnhau bod y rhyddid iddynt ddychwelyd i'r ysgol prif lif ar unrhyw amser maent yn dymuno gwneud hynny. Eglurwyd bydd ystyriaeth benodol yn cael ei roi i unrhyw ddisgybl Blwyddyn 10 neu 11 sydd yn yr Uned Gyfeirio er mwyn sicrhau eu bod wedi eu lleoli yn y man mwyaf addas ar gyfer cyrraedd eu llawn botensial yn eu cymwysterau addysgol. Cadarnhawyd bydd trafodaethau cyson gyda'r ysgolion perthnasol er mwyn cwblhau addasiadau priodol tra mae'r unigolion yn yr Uned Gyfeirio fel gall y plant hynny ddychwelyd i'r ysgol.
- Cyfeiriwyd at nifer o argymhellion a gyflwynwyd yn adroddiad Adolygiad o'r ddarpariaeth cynhwysiant yng Ngwynedd 2023 (Atodiad 2), gan sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu arnynt.

## 7. CRONFA FFYNIANT GYFFREDIN 2025/26 YNG NGWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. R. Medwyn Hughes

**PENDERFYNIAD**

1. **Cytuno i barhad trefn llywodraethu ranbarthol Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) y Deyrnas Gyfunol ar gyfer y flwyddyn bontio 2025/26 gan awdurdodi'r Pennaeth Economi a Chymuned - mewn ymgynghoriad gyda'r Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol a'r Prif Weithredwr - i gadarnhau'r trefniadau**

2. **Cytuno i barhau trefniadau llywodraethu lleol Cronfa Ffyniant Gyffredin y Deyrnas Gyfunol yng Ngwynedd ar gyfer y flwyddyn bontio 2025/26.**

3. **Cytuno bod pob cynllun yng Ngwynedd yn derbyn arian o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin wireddu dwy egwyddor, sef:**
    a. **Bod ymdrech fwriadol i sicrhau fod arian SPF a'r budd yn deillio ohono yn elwa cymunedau a thrigolion ym mhob rhan o Wynedd.**
    b. **Bod ymdrech fwriadol i annog gweithgareddau (a sefydliadau) nad ydynt wedi derbyn arian yn flaenorol gael mynediad i gymorth)**

4. **Cytuno i esblygu ac addasu gweithgareddau o ymhlith prosiectau presennol a'u hymestyn ar gyfer y flwyddyn drosiannol, yn unol ag egwyddor Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol bod cyllid 2025/26 y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn estyniad o'r cyfnod 2022/24 i 2024/25 sy'n pontio i drefn ariannu newydd.**

5. **Gofyn i'r Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin rhoi ystyriaeth fanwl i'r cynlluniau unigol sydd dan ystyriaeth ar gyfer dyraniad Gwynedd o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin, gan gyflwyno argymhelliad yn ôl i'r Cabinet ar y dyraniadau unigol.**

6. **O fewn y gyllideb £7,900,000, cytunwyd i barhad pedair cronfa (gyda chyfanswm cyllideb cychwynnol oddeutu £2.29 miliwn) i ddosbarthu symiau**

**llai o arian Cronfa Ffyniant Gyffredin i fentrau a chymunedau'r sir gan awdurdodi parhad tair cronfa dan reolaeth Cyngor Gwynedd.**

**TRAFODAETH**

Atgoffwyd bod Cronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) yn arian a ddarperir gan Lywodraeth y Deyrnas Gyfunol ers 2022, i hyrwyddo cynlluniau er lles yr economi a chymunedau. Ymhelaethwyd mai Cyngor Gwynedd yw'r Awdurdod Arweiniol ar gyfer Gogledd Cymru ac yn arwain ar nifer o brosiectau. Adroddwyd bod £23.6 miliwn wedi cael ei ddyrannu ar gyfer ariannu 40 o gynlluniau o dan gyllideb y Gronfa hon yng Ngwynedd.

Eglurwyd bod diwedd Mawrth 2025 yn dynodi pryd roedd y Gronfa hon yn dod i ben wrth i Lywodraeth y DG lunio'r cynllun cychwynnol. Fodd bynnag, cyhoeddodd y Llywodraeth ym mis Hydref 2024, eu bwriad i ymestyn y Gronfa am flwyddyn bontio (2025/26) er mwyn caniatáu amser i ddiwygio'r drefn ariannu o Ebrill 2026. Nodwyd bod yr arian a ddarparwyd o fewn y Gronfa yn llai na'r blynyddoedd diwethaf gyda phwysau ar Awdurdodau Lleol i sicrhau ei fod wedi cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Cadarnhawyd bod gwaith o werthuso y prosiectau sydd wedi cael eu hariannu hyd yma ar y gweill ar hyn o bryd, gan bod gyllideb y Gronfa yn dod i ben ar ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.

Tynnwyd sylw bod yr amserlen i ddefnyddio'r arian a ddarparwyd o'r Gronfa yn dynn iawn ac mae'r Adran yn datblygu cynlluniau er mwyn ymdrechu i sicrhau bod cynlluniau yn cael eu gwireddu yn amserol. Pwysleisiwyd bod pob ymdrech yn cael ei wneud er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau o'r arian yn cael ei wneud er budd cymunedau Gwynedd yn ogystal ag annog gweithgareddau a sefydliadau nad ydynt wedi derbyn arian yn flaenorol gael mynediad i gymorth. Adroddwyd bod y Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod yr amserlenni hyn yn cael eu cyfarch a gobeithir gwahodd ceisiadau am ddyraniadau o'r Gronfa yn fuan.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Pwysleisiwyd pecyn o brosiectau yn cael eu cynnig fel rhai priodol i dderbyn arian o'r gronfa yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol. Adroddwyd bod mabwysiadu'r egwyddorion isod yn amod hanfodol er mwyn ariannu unrhyw gais am arian:
    - Bod ymdrech fwriadol i sicrhau bod arian SPF a'r budd yn deillio ohono yn elwa cymunedau a thrigolion ym mhob rhan o Wynedd.
    - Bod ymdrech fwriadol i annog gweithgareddau a sefydliadau nad ydynt wedi derbyn arian yn flaenorol gael mynediad i gymorth.
- Manylwyd ar brosiect Cronfa Sector Wirfoddol a fyddai'n cael ei ddefnyddio cryfhau'r trydydd sector drwy gefnogi sefydliadau. Esboniwyd bod gwasanaethau'r trydydd sector yn hanfodol ar gyfer cymunedau Gwynedd. Nodwyd bydd meini prawf yn cael ei lunio er mwyn canfod cwmnïau yn y trydydd sector sydd angen cymorth i ddarparu eu gwasanaethau. Diolchwyd i Mantell Gwynedd am arwain ar y gronfa hon a'u cydweithrediad clos fel partner i'r Cyngor.

## 8. CYNNIG MAETHU I OFALWYR MAETHU CYMRU GWYNEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme

**PENDERFYNIAD**

1. **Caniatáu gostyngiad o 50% (25% i Ofalwyr Maeth egwyl fer) ym miliau Treth Cyngor prif breswylfa gofalwyr maeth sy'n gofrestredig i'r Cyngor, cyn ystyried unrhyw ddisgowntiau, eithriadau a/neu Ostyngiad Treth Cyngor y maent eisoes yn deilwng iddynt.**
2. **Cynnid tocyn parcio blynyddol am ddim.**
3. **Defnydd diderfyn o ganolfannau hamdden.**
4. **Mabwysiadu polisi Maethu Cyfeillgar i ofalwyr maeth Maethu Cymru Gwynedd sy'n gyflogedig i'r Cyngor.**

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod y gefnogaeth a ddarperir gan rieni maeth yn allweddol i'r Cyngor gan eu bod hefyd yn lleddfu baich ar wasanaethau eraill. Gobeithiwyd bydd cynnig y buddiannau a drafodwyd o fewn yr Adroddiad yn denu gofalwyr maeth newydd yn ogystal â rhoi cefnogaeth a dangos gwerthfawrogiad i rieni maeth presennol y Cyngor.

Datganwyd bod 190 o blant wedi eu lleoli mewn darpariaeth gofal maeth ar hyn o bryd yng Ngwynedd. Eglurwyd bod 30 o'r plant hynny mewn lleoliad maethu a ddarperir gan y sector annibynnol ac mae'r holl blant eraill yn derbyn gofal gan ofalwyr maeth Maethu Cymru Gwynedd. Eglurwyd y golyga hyn bod 85% o blant sydd yn derbyn gofal maeth yn derbyn y gefnogaeth hynny drwy ofalwyr maeth Maethu Cymru Gwynedd.

Nodwyd bod rhai o'r buddion a gynigiwyd i ofalwyr maeth o fewn y pecyn cefnogaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad, yn arwain at oblygiadau ariannol i'r Cyngor. Fodd bynnag, ystyriwyd bod y goblygiadau hyn yn sylweddol llai na chostau lleoliadau maethu'r sector annibynnol, a all fod yn gost o hyd at £989 yr wythnos, ar gyfer un plentyn. Amlygwyd yr angen i ddarparu pecyn cefnogaeth gystadleuol i ddenu gofalwyr maeth o'r newydd, oherwydd y buddion a gynigir drwy'r sector annibynnol.

Cadarnhad bod y Cynnig Maethu arfaethedig ar gyfer gofalwyr maeth Maethu Cymru Gwynedd yn cynnwys:

- Gostyngiad Treth Cyngor
- Tocyn Parcio Blynyddol
- Defnydd diderfyn o ganolfannau hamdden
- Polisi Cefnogaeth i Faethu

Tynnwyd sylw bod ymchwil a wnaed gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Ionawr 2022 yn amlygu bod plant sy'n byw gyda Gofalwyr Maeth yn eu hardal eu hunain yn fwy tebygol o ffynnu yn ogystal â chynnal cysylltiadau pwysig. Pwysleisiwyd ei bod yn allweddol bod awdurdodau lleol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau lleoliadau maethu lleol i blant, gan gadarnhau bod rhieni maeth yn rhan allweddol o'r ddarpariaeth hynny.

Cydnabuwyd ei fod yn her i ddenu unigolion i fod yn ofalwyr maeth gan ymhelaethu nad oes digon o ofalwyr maeth yng Ngwynedd i gyd-fynd â'r galw am gefnogaeth, fel y cadarnhawyd oddi fewn Strategaeth Comisiynu Lleoliadau Gwynedd (diweddariad

2024). Nodwyd bod ffigyrau Rhwydwaith Maethu yn amcanu bod angen denu 550 yn fwy o aelwydydd gofal maeth yn flynyddol yng Nghymru er mwyn cyfarch y galw am gefnogaeth.

Eglurwyd y bwriedir cynnig y buddion a gyflwynwyd yn y pecyn cefnogaeth o 1 Ebrill 2025, gan sicrhau y bydd anfonebau Treth Cyngor diwygiedig yn cael eu hanfon i'r unigolion perthnasol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Mynegwyd cefnogaeth i'r pecyn gefnogaeth gan amlygu ei fod yn bwysig denu gofalwyr maeth o'r newydd yn ogystal â dangos gwerthfawrogiad a chefnogaeth i ofalwyr maeth presennol Maethu Cymru Gwynedd, gan bod Llywodraeth Cymru yn ymgyrchu i sicrhau nad oes modd gwneud elw o ddarpariaeth cefnogaeth i blant mewn gofal erbyn 2030.
- Nodwyd byddai'r Adran Blant a Chefnogi Teuluoedd yn gefnogol i unrhyw ddarpar ofalwyr maeth i dderbyn cefnogaeth i gael cartref addas, a'u bod yn cydweithio gyda'r Adran Tai ac Eiddo a phartneriaid allanol pan yn briodol. Fodd bynnag, cydnabuwyd gallai hyn arwain at heriau ychwanegol o fewn y maes tai ac felly nodwyd nad yw hyn yn derbyn ystyriaeth ar hyn o bryd. Yn yr un modd, nodwyd nad oes modd ystyried ymgeisio am grantiau am estyniadau i dai, yn debyg i gynllun presennol cefnogaeth anabl, oherwydd yr angen i sicrhau bod plentyn maeth yn derbyn gofal er mwyn gallu cyrraedd gofynion y grantiau hynny.
- Cefnogwyd mabwysiadu Polisi Cefnogaeth i Faethu Cyngor Gwynedd er mwyn darparu cefnogaeth i staff cyflogedig sydd yn ofalwyr maeth. Ymhelaethwyd ei fod yn darparu'r cyfle i'r Cyngor annog sefydliadau eraill i fabwysiadu polisi tebyg er budd eu staff a'r plant maeth sydd yn derbyn gofal ganddynt.

## 9. SIARTER RHIANTA CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Menna Trenholme

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwyo mabwysiadu'r Siarter Rhianta Corfforaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.**

**TRAFODAETH**

Eglurwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno 'Siarter Rhianta Corfforaethol – Addewid Cymru' ym mis Medi 2023. Ychwanegwyd bod gofyn i awdurdodau lleol fabwysiadu'r Siarter er mwyn dangos ymrwymiad i hyrwyddo hawliau a chyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Tynnwyd bod y Siarter yn cynnwys egwyddorion ac addewidion sy'n cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, gan nodi'r angen i lynnu atynt wrth ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc sydd yn, neu wedi, derbyn gofal yr Awdurdod.

Cadarnhawyd mai'r egwyddorion a gyflwynwyd yn y Siarter yw:

- Cydraddoldeb
- Dileu Stigma

- Gyda'n Gilydd
- Cefnogaeth
- Uchelgais
- Anogaeth
- Iechyd Da
- Cartref Sefydlog
- Addysg Dda
- Ffynnu

Ymhelaethwyd bod 9 addewid wedi cael eu cyflwyno o fewn y Siarter, er mwyn sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn cael eu cyflawni.

Nodwyd byddai mabwysiadu'r Siarter yn cryfhau trefniadau'r Cyngor gan fynegi balchder bod blaenoriaethau Siarter Rhianta Corfforaethol y Cyngor yn cydblethu'n dda gyda'r egwyddorion ac addewidion hyn.

Adroddwyd bydd gweithrediad y Siarter yn cael ei archwilio gan Banel Rhiantu Corfforaethol y Cyngor.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cefnogwyd mabwysiadu'r Siarter gan ei fod yn ddull o ffurfioli'r egwyddorion sydd eisoes ar waith o fewn Cyngor Gwynedd ac yn rhoi ymrwymiad o barhad yr egwyddorion hynny i'r dyfodol.

**10. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS ECONOMI A CHYMUNED**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. R. Medwyn Hughes

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Adroddwyd bod yr Adran wedi llwyddo i wireddu cynnydd mewn nifer fawr o brosiectau blaenoriaeth Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 y mae'r Adran yn gyfrifol amdanynt sef:

- Hyrwyddo Ein Diwylliant ac Economi Ymweld Cynaliadwy
- Adfywio Cymunedau a Chanol Trefi
- Creu'r amgylchiadau gorau posib yng Ngwynedd i fusnesau a mentrau cymunedol ffynnu, a chefnogi pobl Gwynedd mewn i waith
- Cefnogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau llawn a diogel yn ein cymunedau

Amlygwyd rhai o brif risgiau'r Adran, gan fanylu ar ansicrwydd am ddyfodol cyllidebau Rhaglen ARFOR, Cronfa Ffyniant Bro ac SPF. Nodwyd gall hyn gael effaith ar allu'r Adran i wireddu'r pedwar prosiect blaenoriaeth yma yn amserol.

Tynnwyd sylw penodol at raglen ARFOR gan bod gwerthusiad o'r rhaglen yn dangos buddion clir i fusnesau a chymunedau, ei fod yn hyrwyddo'r defnydd a gwelededd y Gymraeg ac yn amlygu cyfleoedd gwaith i bobl ifanc o fewn y rhanbarth. Mynegwyd siomedigaeth bod dyfodol y rhaglen yn parhau i fod yn ansicr, gan nad oes ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i'w ariannu yn 2025/26.

Diweddarwyd bod cytundeb i adeiladu 10 uned busnes ar waith ym Minffordd, gyda bwriad o gychwyn ar y broses adeiladu yn ail chwarter 2025.

Mynegwyd pryder bod niferoedd disgyblion Gwynedd sydd yn cael gwersi nofio yng nghanolfannau Byw'n Iach yn parhau i ostwng. Atgoffwyd bod 85% o blant Cyfnod Allweddol 2 yn derbyn gwersi nofio yno cyn y Pandemig, gan nodi bod y ffigwr hwn wedi gostwng i 54% erbyn diwedd Haf 2024. Datganwyd pryder mai'r ysgolion gyda'r lefelau uchaf o ddifreintedd yn y Sir sydd gyda'r lefelau isaf o sgiliau nofio. Cadarnhawyd bod y pryder hwn wedi cael ei rannu gyda'r ysgolion, yn dilyn trafodaethau gyda'r Aelod Cabinet Addysg.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Cytunwyd bod lleihad mewn niferoedd disgyblion sydd yn derbyn gwersi nofio yn bryderus. Sicrhawyd bydd y Cyngor yn cydweithio gyda Byw'n Iach ac ysgolion Gwynedd er mwyn sicrhau bod yr heriau sydd yn atal plant rhag derbyn y gwersi hyn, yn cael eu datrys. Rhannwyd dymuniadau gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol (Cyd-gadeirydd Bwrdd Trawsadrannol Cefnogi Pobl) i'r Bwrdd hwnnw ystyried sut y gall gynorthwyo datrysiad ar y mater hwn.
- Ategwyd anfodlonrwydd nad oes ymrwymiad hyd yma gan Lywodraeth Cymru i ariannu rhaglen ARFOR yn 2025/26. Pryderwyd bydd heriau sylweddol i gyflawni prosiectau o fewn y cynllun hwn yn amserol os na fydd penderfyniad ffurfiol ar gyllidebu yn cael ei gyhoeddi'n fuan.

## 11. ADRODDIAD PERFFORMIAD YR AELOD CABINET DROS TAI AC EIDDO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Paul Rowlinson

**PENDERFYNIAD**

**Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad.**

**TRAFODAETH**

Darparwyd diweddariad ar brosiectau Cynllun y Cyngor y mae'r Adran yn gyfrifol amdanynt. Mynegwyd balchder bod cynnydd sylweddol i'r prosiectau hyn, gyda mesurau herio perfformiad boddhaol, ers adrodd i'r Cabinet yn flaenorol.

Nodwyd pryder am lwyth gwaith y Tîm Digartrefedd gan egluro bod oddeutu 1000 o aelwydydd yn cofrestru eu hunain yn ddigartref pob blwyddyn. Pwysleisiwyd bod gan y Cyngor gynlluniau ar waith er mwyn ymdrechu i fynd i'r afael â'r sefyllfa heriol hon, gan gynnwys tair datblygiad newydd sydd ar gael i bobl sydd yn cyflwyno'n ddigartref.

Mynegwyd balchder bod y data diweddaraf yn nodi bod llai o ddibyniaeth ar lety annibynnol argyfwng brys (megis cwmnïau gwely a brecwast) o fewn y flwyddyn

2024/25. Gobeithir bydd y ffigyrau hyn yn parhau i ostwng i'r dyfodol wrth i adeilad Mona, Caernarfon ac 137 Stryd Fawr Bangor gael eu datblygu.

Tynnwyd bod galw mawr am dai yng Ngwynedd ac nid oes digon o dai i ymdopi gyda'r gofyn. Fodd bynnag, nodwyd bod yr Adran yn ymdrechu i gyfarch yr anghenion a godir o fewn y Cynllun Gweithredu Tai. Manylwyd ar brosiectau cefnogi Adeiladu Tai Cymdeithasol, Tŷ Gwynedd, Prynu i Osod a chynlluniau Cartrefi Gwag. Rhannwyd enghraifft drwy fanylu ar ddatblygiad Tŷ Gwynedd Maes Twnti, Morfa Nefyn sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio ar gyfer codi 9 o gartrefi. Ymhelaethwyd bod y gwaith benodi contractwr i ymgymryd â'r gwaith eisoes ar y gweill gan obeithio bydd tendr yn cael ei gyhoeddi yn fuan.

Mynegwyd balchder bod y Cyngor wedi llwyddo i dderbyn grant gwerth £13miliwn ar gyfer rhaglen Adeiladu Tai Cymdeithasol yn ddiweddar, gan ymfalchïo bod gwaith y Cyngor yn sicrhau bod modd denu grantiau o'r math yma. Fodd bynnag, mae gwrthwynebiadau i geisiadau cynllunio yn peri risg i weithrediad y rhaglen.

Datganwyd bod 97% o dai cymdeithasol yn cael eu gosod i bobl sydd gyda cysylltiad i Wynedd, gyda canran uchel yn cael eu gosod i bobl gyda cysylltiad i'r gymuned ble mae'r tai wedi eu lleoli.

Diweddarwyd bod dau ddatblygiad Tŷ Gwynedd ar waith ym Mangor a Llandygai, gan rannu gobeithion bydd mwy o brosiectau'r cynllun yn cael eu datblygu mewn ardaloedd eraill o'r Sir yn y dyfodol.

Adroddwyd bod ymdrin â'r argyfwng costau ynni a thlodi tanwydd yn un o brif flaenoriaethau'r Adran. Ymhelaethwyd bod y Gwasanaeth Ynni wedi ei sefydlu o fewn y Cynllun Gweithredu Tai er mwyn cydweithio gyda partneriaid i hyrwyddo a hwyluso cynlluniau arbed ynni, grantiau a budd-daliadau yn ogystal â sicrhau bod cymaint o bobl â phosib yn manteisio ar y cymorth sydd ar gael. Cadarnhawyd bod y Gwasanaeth yn brysur iawn, gyda 661 o bobl yn derbyn cyngor dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu mewn digwyddiadau, yn ystod mis Tachwedd a Rhagfyr 2024.

Cadarnhawyd bod materion herio perfformiad yn derbyn ystyriaeth gyson.

Datganwyd bod adolygiadau diweddaraf yr Adran yn rhagweld bydd £303,000 o danwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Ymhelaethwyd bod yr Adran yn anelu i wireddu arbedion gwerth oddeutu £260,000 yn 2024/25 gan gydnabod bod oedi ar ddwy o'r cynlluniau perthnasol hynny ar hyn o bryd.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth:

- Mewn ymateb i ystyriaethau byddai sefydliadau tai yn gallu cyflawni prosiect Tŷ Gwynedd, yn gyflymach na'r Cyngor, cadarnhaodd yr Aelod Cabinet nad oes tystiolaeth i brofi hynny gan fod y sefydliadau tai hynny yn rhwym i'r un systemau caffael, cynllunio a chontractwyr â'r Cyngor. Nodwyd bod y Cyngor yn cydweithio gyda'r sefydliadau tai ble mae modd gwneud hynny.

## 12. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar Eitem 12 gan ei bod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig**

**fel y'i diffinnir ym Mharagraff 16 o Atodiad 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 - Gwybodaeth y gallai honiad ynghylch braint broffesiynol gyfreithiol gael ei gynnal yn ei chylch mewn achos cyfreithiol.**

Mae budd cyhoeddus cydnabyddedig mewn bod yn agored ynglŷn â materion sydd o ddiddordeb cyhoeddus megis y Cyfarwyddyd Erthygl 4. Fodd bynnag mae braint gyfreithiol yn cynrychioli hawl sylfaenol sydd â budd cyhoeddus cryf o'i amgylch. Wrth wynebu her gyfreithiol i benderfyniad mae'n ofynnol i'r Cabinet gael mynediad at gyngor cyfreithiol dilyffethair ac agored ar gynnal ac ymateb i achos yn yr un modd ac unrhyw barti arall. Ni ellir sicrhau hyn o fewn fforwm cyhoeddus. Byddai hyn yn groes i'r budd cyhoeddus sydd ynghlwm a sicrhau'r canlyniad gorau i'r Cyngor.

## 13. DIWEDDARIAD YN DILYN DYFARNIAD YR UCHEL LYS MEWN PERTHYNAS Â CHADARNHAU'R CYFARWYDDYD ERTHYGL 4

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Craig ab Iago.

**PENDERFYNIAD**

1. **Nodi penderfyniad caniatâd yr Uchel Lys ynglŷn â'r Cyfarwyddyd Erthygl 4 ynglŷn â'r wybodaeth bellach a ddarperir.**
2. **Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r atodiadau cadarnhau cefnogaeth i Opsiwn 3 i barhau i amddiffyn yr achos.**

**TRAFODAETH**

Trafodwyd yr adroddiad

Dechreuodd y cyfarfod am 1:00pm a daeth i ben am 2:30pm

**CADEIRYDD**